# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Papur Gwyn ar gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru** |
| **Swyddog(ion) a gwblhaodd yr Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **India Hitchen, Arweinydd Polisi a Strategaeth (Awdurdod Cyllid Cymru) a'r tîm Bil Cynnal Treth ehangach.** |
| **Adran:** | **Llywodraeth Cymru**<br><br>**Awdurdod Cyllid Cymru** |
| **Pennaeth Is-adran/SRO (enw):** | **David Matthews, Cyfarwyddwr Strategaeth a Galluogrwydd (Awdurdod Cyllid Cymru)** |
| **Gweinidog y Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:** | **Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Medi 2025** |

# CYNNWYS


**ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?** ..... 3

**ADRAN 8. CASGLIAD** ..... 11

**ADRAN 9. DATGANIAD** ..... 15

**ASESIADAU EFFAITH LLAWN** ..... 16

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ..... 16

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae'r Papur Gwyn, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Integredig hwn, yn nodi cynigion i sicrhau bod Deddfau Trethi Cymru yn addas at y diben, yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd gan Senedd Cymru ac yn galluogi Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) i gasglu trethi datganoledig mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Cefndir

Ym mis Ebrill 2018, dechreuodd ACC gasglu a rheoli dwy dreth a ddatganolwyd i Gymru ar ran Llywodraeth Cymru, sef: y Dreth Trafodiadau Tir[1] a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi[2]. Disodlodd y trethi hyn Dreth Dir y Dreth Stamp y DU a Threth Dirlenwi'r DU yn y drefn honno yng Nghymru.

Mae'r diwygiadau a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar saith mlynedd o brofiad gweithredol ym maes casglu a rheoli trethi datganoledig, adborth diwydiant, cynrychiolwyr ac mewn ymateb i newidiadau deddfwriaethol perthnasol Llywodraeth y DU. Bwriedir i'r newidiadau technegol egluro a gwella Deddfau Trethi Cymru a sicrhau eu bod yn addas at y dyfodol er mwyn i ACC allu parhau i gasglu trethi mor effeithiol â phosibl. Mae profiad gweithredol ACC dros y cyfnod hwn hefyd wedi tynnu sylw at sawl maes lle mae angen diweddaru agweddau ar ei strwythur llywodraethu mewnol neu'r pwerau y mae'n eu defnyddio i gyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid cyflwyno deddfwriaeth newydd – sef 'bil cynhaliaeth trethiant' cyntaf – a fydd yn cynnwys cyfres o ddiwygiadau anghysylltiedig i Ddeddfau Trethi Cymru[3]:

- Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016
- Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017
- Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

Y cam nesaf arfaethedig ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben yw datblygu 'bil cynhaliaeth trethiant', a fydd yn cynnwys cyfres o ddiwygiadau anghysylltiedig i Ddeddfau Trethi Cymru[3] i'w gwneud drwy gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Dylai'r newidiadau hyn sicrhau bod Deddfau Trethi Cymru yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd gan Senedd Cymru. Dylai'r cynigion hefyd alluogi trethdalwyr a'u cynghorwyr i ddeall eu rhwymedigaethau yn glir a sicrhau y gall ACC gasglu trethi mor effeithiol â phosibl. Er mai mater i Lywodraeth nesaf

[1] https://www.llyw.cymru/treth-trafodiadau-tir-rhagarweiniad
[2] https://www.llyw.cymru/treth-gwarediadau-tirlenwi-rhagarweiniad
[3] Mae Deddfau Trethi Cymru yn cynnwys Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

Cymru yw hwn, mae Llywodraeth bresennol Cymru yn awyddus i sicrhau bod ei holynydd mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â'r bil cynhaliaeth trethiant cyntaf o'i fath.

Awdurdod Cyllid Cymru

Adran anweinidogol Llywodraeth Cymru yw ACC. Fel corff gweinyddu trethi Llywodraeth Cymru, mae'n datblygu ac yn darparu gwasanaethau i bobl gofrestru, cyfrifo a thalu treth yng Nghymru. Mae'r refeniw a godir yn darparu cyllid ar gyfer cymunedau a gwasanaethau, fel ysgolion a'r GIG, yng Nghymru. Mae ACC hefyd yn gyfrifol bellach am gasglu a rheoli'r ardoll ymwelwyr ar ran prif gynghorau yng Nghymru a bydd yn gweithredu'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ledled Cymru.

Prif nod ACC yw cynllunio a darparu gwasanaethau refeniw cenedlaethol Cymru a rhoi arweiniad er mwyn sicrhau bod gwell defnydd yn cael ei wneud o ddata trethdalwyr Cymreig i Gymru. Mae amcanion strategol ACC, a nodir yn y Cynllun Corfforaethol[4] fel a ganlyn:

- ei gwneud yn hawdd gwneud y peth iawn
- bod yn deg ac yn gyson yn y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau
- bod yn sefydliad cynaliadwy sy’n canolbwyntio ar y dyfodol

Nod y newidiadau a gynigir yn y Papur Gwyn yw ei gwneud yn bosibl i ACC gyflawni ei amcanion strategol.

**Crynodeb o'r diwygiadau arfaethedig**

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys pennod sy'n amlinellu y cyd-destun polisi ar gyfer y diwygiadau arfaethedig ac yn gofyn

Fel y'u crynhoir, mae'r Papur Gwyn yn nodi'r cynigion canlynol –

Llywodraethiant ACC

**Aelodau anweithredol o bwyllgorau ACC:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn egluro ym mha bwyllgorau neu is-bwyllgorau y bydd angen aelodau anweithredol.
- Cynnig y dylai unigolion nad ydynt yn aelodau o ACC (h.y. staff ACC nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd) allu pleidleisio yng nghyfarfodydd pwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt (yn ôl y Cylch Gorchwyl) ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

[4] https://www.llyw.cymru/cynllun-corfforaethol-awdurdod-cyllid-cymru-2025-i-2028

Pwerau Trethu ACC

**Pwerau rhannu gwybodaeth:**

- Cynnig i ddiwygio adran 18(1) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn cyflwyno dau ddatgeliad newydd a ganiateir yn ddeddfwriaethol er mwyn i ACC allu datgelu gwybodaeth i brif gynghorau a Llywodraeth Cymru, at ddibenion ei swyddogaethau.

**Rhannu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr â phrif gynghorau at ddibenion swyddogaethau ACC:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn codi'r cyfyngiad ar ddatgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr i brif gynghorau.

**Cadw taliadau yn ôl yn ystod ymholiad:**

- Cynnig i roi'r pŵer i ACC gadw taliadau yn ôl tra bydd yn cynnal ymholiad at ddibenion y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Cynnig i fewnosod pŵer i wneud rheoliadau er mwyn estyn y darpariaethau hyn i gynnwys yr ardoll ymwelwyr, os bydd angen.

**Hawliadau am ryddhad gordaliad:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn egluro nad oes angen i ACC agor ymholiad er mwyn gwrthod cais o dan a67 o'r Ddeddf honno.

**Hysbysiadau gwybodaeth i gadarnhau a yw rhyddhad wedi'i dynnu'n ôl:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn cynnwys darpariaeth i ganiatáu i ACC gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i ganiatáu i ACC gasglu gwybodaeth i gadarnhau a yw'r amodau ar gyfer tynnu rhyddhad yn ôl wedi'u bodloni.

**Pŵer archwilio:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn caniatáu i ACC gynnal archwiliadau heb geisio cymeradwyaeth tribiwnlys na threthdalwr gan ddefnyddio rheolau tebyg i Ddeddf Cyllid 2008.

**Pŵer i ddiwygio hysbysiadau cosb benodedig:**

- Cynnig i fewnosod pŵer i wneud rheoliadau er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cosbau penodedig a nodir yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

2016. Byddai hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gynyddu neu leihau symiau cosbau penodedig.

**Cynyddu llog taliadau hwyr:**

- Cynnig i ddefnyddio'r pwerau presennol yn adran 163 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 i gynyddu'r gyfradd llog a godir gan ACC ar log taliadau hwyr i gyd-fynd â chyfradd llog CThEF i 4% ar ben cyfradd sylfaenol Banc Lloegr.

**Ailgyfrifo symiau llog ar ôl diwygiad:**

- Cynnig i ddiwygio darpariaethau yn adran 157 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn sicrhau bod unrhyw log sy'n daladwy wir yn adlewyrchu swm y dreth a godir gan ACC a chosbau cysylltiedig sy'n ddyledus.

<u>Newidiadau i Drethi</u>

**Gwarediadau trethadwy:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn egluro bod unrhyw ddefnydd o ddeunydd mewn cell dirlenwi yn drethadwy oni bai ei fod wedi'i eithrio'n benodol.

**Rhyddhad grŵp a chydnabyddiaeth a ddarperir o'r tu allan i'r grŵp:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 er mwyn darparu rhestr gynhwysfawr o'r amgylchiadau pan na fydd cydnabyddiaeth sy'n cael ei darparu o'r tu allan i'r grŵp yn arwain at dynnu'r rhyddhad yn ôl, oni fydd y trafodiad yn rhan o gynllun i arbed Treth Trafodiadau Tir.

**Trafodiad A i A+B:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 er mwyn ychwanegu darpariaeth newydd sy'n egluro na ddylid trin A mewn trafodiad A i A+B fel prynwr.

**Adlewyrchu diwygiadau i'r system lesddaliadau yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.**

- Cynnig i wneud diwygiad er mwyn ei nodi'n glir na fydd y cyfraddau preswyl uwch yn gymwys pan fo'r trafodiad yn un y mae'r rhyddhad rhyddfreinio lesddaliadau yn gymwys iddo.

**Enwebeion a lesoedd:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 er mwyn sicrhau nad yw'r rheolau edrych drwy presennol ar gyfer lesoedd sy'n cynnwys enwebeion ac ymddiriedolwyr noeth yn cyfyngu ar argaeledd rhyddhadau, fel bod y prynwr a'r gwerthwr yn berchnogion buddiannol yn hytrach na chyfreithiol.

**Cymhwyso Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 at y Goron:**

- Cynnig i ddiwygio'r ddeddfwriaeth yn adran 187A(1) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn cynnwys y cyfeiriadau cywir sy'n ymwneud ag apeliadau ac adolygiadau o hysbysiadau gwybodaeth.

Mae'r Papur Gwyn yn gorffen â chwestiynau am effaith y cynigion ar y Gymraeg gan wahodd sylwadau ar faterion cysylltiedig nad ymdrinnir â nhw yn y Papur Gwyn.

**Effaith**

Mae a wnelo'r Asesiad Effaith Integredig hwn â chynigion drafft nad ydynt yn cynnwys deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon er y gallent arwain at ddatblygiadau deddfwriaethol yn y dyfodol, fel y'i nodir yn y Papur Gwyn. Byddwn yn myfyrio ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac yn ystyried sut i asesu effaith y cynigion yn fanylach drwy ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig hwn.

Ar y cyfan, bydd y cynigion hyn yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol, yn unol â phum egwyddor treth graidd Llywodraeth Cymru. Nod y cynigion yw:

- Gwella eglurder ac effeithlonrwydd prosesau casglu treth, gan sicrhau taliadau cywir a lleihau nifer yr achosion o osgoi trethi. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cynnig diwygiadau i bwerau archwilio ac ad-daliadau er mwyn helpu i ddiogelu cywirdeb refeniw.
- Helpu i roi'r ardoll ymwelwyr ar waith a'i gwneud yn bosibl i ddata gael eu rhannu'n at ddibenion datblygu polisi. Mae'r newid hwn yn cyd-fynd â nodau ehangach fel cynaliadwyedd a thegwch economaidd.
- Helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy alluogi ACC i rannu data a gesglir ganddo â Llywodraeth Cymru a phartneriaid mewn llywodraeth leol.
- Egluro strwythurau llywodraethu a rheolau treth (e.e. rhyddhad grŵp, lesoedd enwebeion, gwarediadau tirlenwi), gan leihau amwysedd a'r baich gweinyddol i ACC a threthdalwyr.
- Gwahodd adborth rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori, sy'n ffurfio rhan graidd o'r Ffordd Gymreig o Drethu. Mae hyn yn sicrhau y caiff ystyriaethau o ran polisi trethi a chyflawni yng Nghymru eu hymgorffori o'r cychwyn mewn prosesau cynllunio a datblygu.
- Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o greu Cymru sy'n fwy cyfartal. Nod y cynigion yw sicrhau tegwch o ran

triniaeth dreth (e.e. diwygio'r system lesddaliadau, ailgyfrifo llog), hyrwyddo tryloywder, cysondeb a mynediad teg at ryddhadau.

**Hirdymor**

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn adlewyrchu tueddiadau hirdymor fel digideiddio a mwy o ddatganoli cyllidol, gan gynnwys yr ardoll ymwelwyr, sy'n llywio'r ffordd y mae'r system dreth yng Nghymru yn gweithio. Mae'r tueddiadau hyn yn debygol o ddylanwadu ar ba mor effeithiol a pherthnasol fydd y newidiadau arfaethedig i Ddeddfau Trethi Cymru. Mae'r cynigion hefyd yn ymateb i newidiadau i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU a allai effeithio ar drethi datganoledig. Mae heriau allweddol yn cynnwys sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn glir, yn hygyrch ac yn gyson a diogelu gwybodaeth trethdalwyr ar yr un pryd, sydd oll yn sicrhau y gall ACC weithredu'n effeithlon.

Ar yr un pryd, mae cyfleoedd i wella cydymffurfedd â threth, atgyfnerthu trefniadau cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus a sicrhau bod y system dreth ddatganoledig yng Nghymru yn addas at y dyfodol er mwyn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn well. Nod y cynigion yw mynd i'r afael â'r materion hyn drwy egluro trefniadau llywodraethu, galluogi rhannu data yn ddiogel ac yn bwrpasol a chysoni prosesau gweinyddu treth ag anghenion polisi sy'n newid, gan gynnwys y rhai a nodwyd drwy adborth diwydiant a chynrychiolwyr.

**Atal**

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn ymdrin â symptomau yn bennaf – megis aneffeithlonrwydd, bylchau neu ansicrwydd yn y ddeddfwriaeth bresennol – ond maent hefyd yn dechrau mynd i'r afael ag achosion sylfaenol drwy atgyfnerthu trefniadau llywodraethu, gwella tryloywder a chysoni pwerau trethu â nodau polisi ehangach, sydd â'r nod o wella sicrwydd a galluogi ACC i gyflawni ei swyddogaethau yn fwy effeithiol.

Gellir lleihau effeithiau negyddol, lle maent wedi'u nodi, drwy ymgorffori mesurau diogelwch mewn trefniadau rhannu data a chynnal ffiniau llywodraethu clir, er enghraifft. Bydd yn allweddol parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac asesu effeithiau er mwyn sicrhau bod y cynigion yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor a chydlyniant cymdeithasol.

**Integreiddio**

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn cyfrannu at agendâu polisi cyhoeddus ehangach drwy atgyfnerthu'r fframwaith cyfreithiol a gweithredol ar gyfer gweinyddu trethi datganoledig yng Nghymru. Mae pwerau ychwanegol i rannu data, fel y'u cynigir yn y Papur Gwyn, hefyd yn galluogi gwell cydgysylltu rhwng cyrff cyhoeddus, gan gefnogi prosesau llunio polisi a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth, yn enwedig mewn meysydd fel tai, cynllunio a thwristiaeth. Bydd prosesau rhannu data gwell hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau presennol prif gynghorau, gan gynnwys ardrethi annomestig a'r dreth gyngor.

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn wedi cael eu datblygu yn unol â phum egwyddor treth graidd Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'r broses ymgynghori ei hun yn gam tuag at integreiddio, sy'n gwahodd adborth gan randdeiliaid er mwyn sicrhau bod cynigion yn helpu i greu Cymru fwy llewyrchus, cyfartal a chydlynol.

**Cydweithio**

Ymhlith y partneriaid sydd â diddordeb cyffredin yn y cynnig hwn mae ACC, Llywodraeth Cymru, prif gynghorau a rhanddeiliaid y mae trethi datganoledig yn effeithio arnynt, cynrychiolwyr o ddiwydiant a chyrff proffesiynol. Mae'r grwpiau hyn yn chwarae rôl uniongyrchol o ran llunio Deddfau Trethi Cymru, eu gweinyddu neu gydymffurfio â nhw.

Adlewyrchir eu hymwneud drwy adborth gweithredol a chyfranogiad yn y broses ymgynghori bresennol. Mae ACC wedi cyfrannu ei brofiad o weinyddu trethi datganoledig ers 2018, gan nodi meysydd i'w gwella. Gwahoddir rhanddeiliaid i gyfrannu drwy ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, gan helpu i fireinio'r cynigion a sicrhau eu bod yn ymarferol ac yn deg, a'u bod yn cyd-fynd â nodau ehangach y sector a Llywodraeth Cymru.

**Cynnwys**

Mae adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi bod yn rhaid i gorff cyhoeddus ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru wrth wneud penderfyniadau sydd o ddiddordeb iddynt neu sy'n effeithio arnynt.

Mae pobl y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt – megis trethdalwyr, cynrychiolwyr o ddiwydiant a chyrff proffesiynol – wedi cael eu cynnwys drwy ymgysylltu parhaus ag ACC a Llywodraeth Cymru. Mae eu hadborth, sydd wedi bod yn cael ei gasglu o brofiad gweithredol ers 2018, wedi helpu i nodi meysydd lle mae angen egluro neu wella'r ddeddfwriaeth. Byddant yn parhau i gymryd rhan mewn prosesau cyflawni drwy'r broses ymgynghori, gwaith cynllunio gweithredu a chydweithio parhaus ag ACC.

**Costau ac Arbedion**

Er y gallai rhai costau fod yn gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig i Ddeddfau Trethi Cymru, disgwylir i'r rhain gael eu talu o gyllidebau presennol, am fod llawer o'r diwygiadau yn egluro materion technegol neu'n gwella trefniadau llywodraethu yn seiliedig ar arferion presennol. Dros amser, sicrheir arbedion drwy brosesau gweinyddu trethi mwy effeithlon, llai o wallau ac anghydfodau a gwell cydymffurfedd. Drwy egluro deddfwriaeth ac atgyfnerthu pwerau rhannu data, bydd ACC mewn gwell sefyllfa i weithredu'n effeithiol, lleihau beichiau gweinyddol a chefnogi penderfyniadau mwy hyddysg ynghylch polisi cyhoeddus.

Gan nad oes unrhyw gynigion ar gyfer deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon, nid oes angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y cam datblygu polisi hwn. Bydd unrhyw

gynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn, er mwyn sicrhau bod costau a manteision unrhyw opsiynau yn cael eu hasesu.

### Mecanwaith

Er na fwriedir cyflwyno unrhyw gynigion deddfwriaethol yn ystod tymor y Senedd hon, gallai'r cynigion presennol arwain at ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Caiff unrhyw gynigion deddfwriaethol yn y dyfodol eu hategu gan Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi cael eu cynnwys yn y broses o'i ddatblygu?

Ymgysylltwyd â'r bobl y mae'r cynigion yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt – megis trethdalwyr, cynrychiolwyr o ddiwydiant a chyrff proffesiynol – drwy gyfuniad o ddeialog barhaus a gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu. Gan ddefnyddio ei brofiad o weinyddu trethi datganoledig ers 2018, mae ACC wedi chwarae rôl allweddol i nodi meysydd i'w gwella, gan gynnwys defnyddio adborth gan gyrff proffesiynol a chynrychiolwyr drwy weithgarwch ymgysylltu presennol a pharhaus. Mae'r cyfraniadau hyn wedi helpu i lywio'r cynigion er mwyn sicrhau eu bod yn ymarferol ac yn deg a'u bod yn ymateb i anghenion cymunedau ledled Cymru.

Er bod y cynigion yn rhai technegol yn bennaf, rydym yn ystyried yn ofalus yr effaith y gallent ei chael ar bobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu datblygu i lywio'r broses a byddant yn parhau i ddatblygu wrth i adborth ddod i law. Bydd yr ymgynghoriad yn agored i bawb, sy'n golygu y gall amrywiaeth eang o leisiau gyfrannu at y broses o ddatblygu'r cynigion.

Bydd yr holl ddeunyddiau ymgynghori ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Caiff effaith bosibl y cynigion ar y Gymraeg ei hasesu hefyd er mwyn sicrhau cydymffurfedd â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er na ddisgwylir i'r cynigion gael effaith uniongyrchol ar blant, mae egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi llywio'r dull gweithredu, gan sicrhau bod effeithiau hirdymor ar genedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried. Mae'r broses ymgynghori yn cynnig cyfle i gynrychiolwyr a grwpiau eiriolaeth plant gyfrannu eu safbwyntiau, os nodir bod cynigion yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Dylai'r cynigion yn y Papur Gwyn i ddatblygu deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd nesaf er mwyn gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru gael effaith gadarnhaol ar lawer o agweddau ar gymdeithas Cymru.

Mae'r effeithiau mwyaf arwyddocaol yn cynnwys:

- Dangos ymrwymiad i wella eglurder ac effeithlonrwydd prosesau casglu treth, gan sicrhau bod taliadau cywir yn cael eu derbyn a lleihau nifer yr achosion o osgoi trethi. Bydd diwygiadau arfaethedig i bwerau archwilio ac ad-daliadau yn helpu i ddiogelu cywirdeb refeniw ymhellach.
- Helpu i roi mentrau polisi ehangach ar waith, gan gynnwys yr ardoll ymwelwyr, ochr yn ochr â datblygu arferion rhannu data gwell sy'n cefnogi gwaith datblygu polisi.

- Egluro strwythurau llywodraethu er mwyn cynnal trefniadau llywodraethu da a sicrhau bod gwybodaeth warchodedig am drethdalwyr yn parhau i gael ei diogelu.
- Egluro rheolau treth a thrwy hynny leihau amwysedd a'r baich gweinyddol i ACC a threthdalwyr.
- Cyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir yn y Ffordd Gymreig o Drethu. Mae hyn yn sicrhau bod polisi trethi ac ystyriaethau o ran cyflawni yn cael eu hymgorffori o'r cychwyn mewn prosesau cynllunio a datblygu, gan adlewyrchu gwerthoedd Cymru, sef tegwch, tryloywder a chynaliadwyedd hirdymor.

Mae themâu sydd wedi codi o brofiad gweithredol ACC hyd yma, a gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid ers 2018, yn tynnu sylw at bwysigrwydd tegwch, eglurder a chynaliadwyedd hirdymor o ran y ffordd y mae Trethi Cymru yn cael eu gweinyddu, sy'n cyd-fynd yn agos â'r saith nod llesiant – yn arbennig Cymru lewyrchus, gydnerth a mwy cyfartal – ac yn cefnogi amcanion llesiant Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag atal, cydweithio ac integreiddio. O safbwynt economaidd, nod y cynigion yw lleihau beichiau gweinyddol a gwella cydymffurfedd â'r system trethi datganoledig yng Nghymru, gan gyfrannu at greu Cymru fwy cydnerth a llewyrchus.

O gymharu â chamau gweithredu presennol Llywodraeth Cymru, mae'r cynigion hyn yn adeiladu ar fframweithiau a phrofiad gweithredol presennol, gan fireinio'r system er mwyn diwallu anghenion hirdymor Cymru a'i phobl yn well.

Rydym ar gam cynnar yn y broses o ddatblygu polisi ar gyfer diwygiadau arfaethedig ac, felly, cyfyngir ar ein gallu i asesu effaith bosibl lawn y Papur Gwyn ar hyn o bryd. Rydym wedi amlinellu effaith bosibl y Papur Gwyn ac rydym yn cydnabod lle nad yw'n bosibl asesu'r effaith lawn ar y cam datblygu polisi cynnar hwn. Byddwn yn parhau i asesu effaith y cynigion hyn yn fanylach wrth i'r polisi ddatblygu.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn cyfrannu at y saith nod llesiant a ragnodwyd yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus

- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Nod y newidiadau arfaethedig i Ddeddfau Trethi Cymru yw cryfhau'r fframwaith cyfreithiol a gweithredol ar gyfer gweinyddu trethi yng Nghymru. Drwy ymgorffori eglurder a chysondeb mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â threthi, nod y cynigion yw hyrwyddo Cymru fwy llewyrchus drwy wella cydymffurfedd a lleihau beichiau gweinyddol. Mae hyn yn galluogi ACC i weithredu'n fwy effeithlon. Mae'r cynigion hefyd yn cefnogi Cymru fwy cydnerth drwy alluogi cyrff cyhoeddus i rannu data yn well, a fydd, yn ei dro, yn hwyluso gwneud penderfyniadau mwy hyddysg mewn meysydd fel tai, cynllunio a thwristiaeth.

Bwriedir i'r newidiadau arfaethedig i Ddeddfau Trethi Cymru hefyd helpu i roi'r ardoll ymwelwyr ar waith, sydd ynddi'i hun yn cyfrannu at sawl nod llesiant. Nod yr ardoll ymwelwyr yw grymuso prif gynghorau i reoli twristiaeth mewn ffordd sy'n cefnogi economïau lleol, yn diogelu treftadaeth ddiwylliannol ac yn lleihau'r pwysau ar adnoddau naturiol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r nodau o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang a Chymru o gymunedau cydlynus. Mae'r ardoll hefyd yn cynnig ffrwd refeniw newydd y gellir ei hailfuddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau, gan gefnogi datblygu economaidd a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Er mwyn cryfhau ei chyfraniad at nodau llesiant penodol – yn enwedig Cymru lewyrchus, gydnerth a mwy cyfartal – gall Llywodraeth Cymru gymryd camau pellach drwy ymgorffori ymgysylltu cynhwysol a hygyrchedd ym mhob cam datblygu polisi. Mae hyn yn cynnwys parhau i gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a siaradwyr Cymraeg mewn prosesau ymgynghori a gweithredu. Parheir i gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg a chânt eu diweddaru er mwyn sicrhau bod y cynigion yn parhau i ymateb i anghenion cymunedau amrywiol. Caiff yr holl ddeunyddiau eu darparu'n ddwyieithog a bydd gweithgarwch ymgysylltu â sefydliadau Cymraeg yn helpu i hyrwyddo cynhwysiant.

Er mwyn sicrhau bod y cynigion yn osgoi neu'n lliniaru effeithiau negyddol, caiff mesurau diogelwch eu hymgorffori ym mhob rhan o'r broses o'u rhoi ar waith. Mae'r broses ymgynghori wedi'i llunio'n benodol i dynnu sylw at ganlyniadau annisgwyl drwy adborth rhanddeiliaid, sy'n golygu y gellir nodi effeithiau negyddol ac ymateb iddynt ar gam cynnar. Wrth i effeithiau newydd ddod i'r amlwg, caiff yr Asesiad Effaith Integredig hwn ei fireinio'n barhaus er mwyn adlewyrchu tystiolaeth wedi'i diweddaru, gan sicrhau bod y cynigion yn parhau i gyd-fynd ag amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

### 8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, byddwn yn cynnal ymgynghoriad 12 wythnos. Byddwn yn parhau i nodi rhanddeiliaid y gallai'r cynigion effeithio arnynt a chynnal digwyddiadau ymgynghori er mwyn sicrhau bod pob safbwynt wedi cael ei ystyried. Caiff pob un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi a'u defnyddio i ddatblygu cynigion ymhellach.

Bydd cynigion polisi pellach yn destun Asesiad Effaith Integredig manylach, diwygiedig.

## ADRAN 9. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwy'n fodlon bod effaith y camau gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n briodol.

Enw'r Prif Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: David Matthews

Adran: Awdurdod Cyllid Cymru

Dyddiad:  3 Tachwedd 2025

# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

1. **Amcanion polisi**

Mae'r asesiad effaith hwn yn asesu effaith y cynigion ar blant a phobl ifanc hyd at 18 oed.

Fel yr amlinellir yn Rhan 1 o'r Asesiad Effaith Integredig hwn, mae'r diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn yn seiliedig ar saith mlynedd o brofiad gweithredol ACC, adborth o ddiwydiant a newidiadau deddfwriaethol yn y DU. Eu nod yw egluro a moderneiddio Deddfau Trethi Cymru a sicrhau eu bod yn addas at y dyfodol er mwyn helpu i sicrhau prosesau casglu treth effeithiol a gwella trefniadau llywodraethu.

**<u>Crynodeb o'r diwygiadau arfaethedig</u>**

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys pennod sy'n amlinellu y cyd-destun polisi ar gyfer y diwygiadau arfaethedig ac yn gofyn

Fel y'u crynhoir, mae'r Papur Gwyn yn nodi'r cynigion canlynol –

<u>Llywodraethiant ACC</u>

**Aelodau anweithredol o bwyllgorau ACC:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn egluro ym mha bwyllgorau neu is-bwyllgorau y bydd angen aelodau anweithredol.
- Cynnig y dylai unigolion nad ydynt yn aelodau o ACC (h.y. staff ACC nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd) allu pleidleisio yng nghyfarfodydd pwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt (yn ôl y Cylch Gorchwyl) ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

<u>Pwerau Trethu ACC</u>

**Pwerau rhannu gwybodaeth:**

- Cynnig i ddiwygio adran 18(1) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn cyflwyno dau ddatgeliad newydd a ganiateir yn ddeddfwriaethol er mwyn i ACC allu datgelu gwybodaeth i brif gynghorau a Llywodraeth Cymru, at ddibenion ei swyddogaethau.

**Rhannu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr â phrif gynghorau at ddibenion swyddogaethau ACC:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn codi'r cyfyngiad ar ddatgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr i brif gynghorau.

**Cadw taliadau yn ôl yn ystod ymholiad:**

- Cynnig i roi'r pŵer i ACC gadw taliadau yn ôl tra bydd yn cynnal ymholiad at ddibenion y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Cynnig i fewnosod pŵer i wneud rheoliadau er mwyn estyn y darpariaethau hyn i gynnwys yr ardoll ymwelwyr, os bydd angen.

**Hawliadau am ryddhad gordaliad:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn egluro nad oes angen i ACC agor ymholiad er mwyn gwrthod cais o dan a67 o'r Ddeddf honno.

**Hysbysiadau gwybodaeth i gadarnhau a yw rhyddhad wedi'i dynnu'n ôl:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn cynnwys darpariaeth i ganiatáu i ACC gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i ganiatáu i ACC gasglu gwybodaeth i gadarnhau a yw'r amodau ar gyfer tynnu rhyddhad yn ôl wedi'u bodloni.

**Pŵer archwilio:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn caniatáu i ACC gynnal archwiliadau heb geisio cymeradwyaeth tribiwnlys na threthdalwr gan ddefnyddio rheolau tebyg i Ddeddf Cyllid 2008.

**Pŵer i ddiwygio hysbysiadau cosb benodedig:**

- Cynnig i fewnosod pŵer i wneud rheoliadau er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cosbau penodedig a nodir yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Byddai hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gynyddu neu leihau symiau cosbau penodedig.

**Cynyddu llog taliadau hwyr:**

- Cynnig i ddefnyddio'r pwerau presennol yn adran 163 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 i gynyddu'r gyfradd llog a godir gan ACC ar log taliadau hwyr i gyd-fynd â chyfradd llog CThEF i 4% ar ben cyfradd sylfaenol Banc Lloegr.

**Ailgyfrifo symiau llog ar ôl diwygiad:**

- Cynnig i ddiwygio darpariaethau yn adran 157 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn sicrhau bod unrhyw log sy'n daladwy wir yn adlewyrchu swm y dreth a godir gan ACC a chosbau cysylltiedig sy'n ddyledus.

Newidiadau i Drethi

**Gwarediadau trethadwy:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn egluro bod unrhyw ddefnydd o ddeunydd mewn cell dirlenwi yn drethadwy oni bai ei fod wedi'i eithrio'n benodol.

**Rhyddhad grŵp a chydnabyddiaeth a ddarperir o'r tu allan i'r grŵp:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 er mwyn darparu rhestr gynhwysfawr o'r amgylchiadau pan na fydd cydnabyddiaeth sy'n cael ei darparu o'r tu allan i'r grŵp yn arwain at dynnu'r rhyddhad yn ôl, oni fydd y trafodiad yn rhan o gynllun i arbed Treth Trafodiadau Tir.

**Trafodiad A i A+B:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 er mwyn ychwanegu darpariaeth newydd sy'n egluro na ddylid trin A mewn trafodiad A i A+B fel prynwr.

**Adlewyrchu diwygiadau i'r system lesddaliadau yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.**

- Cynnig i wneud diwygiad er mwyn ei nodi'n glir na fydd y cyfraddau preswyl uwch yn gymwys pan fo'r trafodiad yn un y mae'r rhyddhad rhyddfreinio lesddaliadau yn gymwys iddo.

**Enwebeion a lesoedd:**

- Cynnig i ddiwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 er mwyn sicrhau nad yw'r rheolau edrych drwy presennol ar gyfer lesoedd sy'n cynnwys enwebeion ac ymddiriedolwyr noeth yn cyfyngu ar argaeledd rhyddhadau, fel bod y prynwr a'r gwerthwr yn berchnogion buddiannol yn hytrach na chyfreithiol.

**Cymhwyso Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 at y Goron:**

- Cynnig i ddiwygio'r ddeddfwriaeth yn adran 187A(1) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn cynnwys y cyfeiriadau cywir sy'n ymwneud ag apeliadau ac adolygiadau o hysbysiadau gwybodaeth.

Mae'r Papur Gwyn yn gorffen â chwestiynau am effaith y cynigion ar y Gymraeg gan wahodd sylwadau ar faterion cysylltiedig nad ymdrinnir â nhw yn y Papur Gwyn.

Mae'r Papur Gwyn yn argymell y dylid cyflwyno ‘bil cynhaliaeth trethiant’ cyntaf – sef set o ddiweddariadau technegol i Ddeddfau Trethi Cymru, sef:

- Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016
- Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017
- Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

Ar ôl ymgynghori, y cam nesaf yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol er mwyn sicrhau bod y Deddfau yn cyflawni eu canlyniadau bwriadedig, yn helpu i feithrin dealltwriaeth trethdalwyr ac yn cynnal prosesau gweinyddu effeithlon.

Rydym wedi cynnal Asesiad drafft cychwynnol o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn. Er bod y cynigion yn rhai technegol a gweinyddol yn bennaf, maent wedi cael eu hasesu yn erbyn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol.

Drwy'r asesiad hwn, rydym wedi nodi sawl effaith anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Mae a wnelo'r rhain â sut y gallai newidiadau i brosesau gweinyddu trethi, gweithgarwch gorfodi a rhyddhadau effeithio ar y canlynol:

- Sefydlogrwydd ariannol aelwydydd a fforddiadwyedd tai
- Iechyd yr amgylchedd a diogelwch ger safleoedd tirlenwi
- Refeniw cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi hawliau a llesiant plant
- Gallu gweithredol sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant

Byddwn yn parhau i fireinio'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o'r broses datblygu deddfwriaethol, gan sicrhau bod unrhyw effeithiau posibl ar blant yn cael eu hystyried yn llawn a bod mesurau diogelwch priodol yn cael eu hymgorffori yn y cynigion terfynol.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Ar hyn o bryd, nid ydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant na phobl ifanc, am y rhesymau canlynol:

- Mae'r cynigion yn rhai technegol a gweinyddol yn bennaf, heb unrhyw newidiadau polisi uniongyrchol sy'n targedu plant.
- Mae'r effeithiau a nodwyd yn rhai anuniongyrchol a chânt eu cyfryngu drwy drethdalwyr sy'n oedolion, sefydliadau neu amodau amgylcheddol.
- Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y broses ddeddfu yn hytrach na chynllunio neu ddarparu gwasanaethau.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfranogi wrth lunio polisi yn y dyfodol. Fel rhan o'r cam datblygu deddfwriaethol nesaf, byddwn yn ceisio defnyddio'r ffynonellau canlynol o dystiolaeth:

- Byddwn yn parhau i adolygu canllawiau perthnasol CCUHP a Sylwadau Cyffredinol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag Erthygl 3 (lles pennaf), Erthygl 16 (preifatrwydd), Erthygl 24 (iechyd) ac Erthygl 27 (safon byw).
- Data gweithredol CThEF ac ACC: Ar ddemograffeg trethdalwyr, hawliadau am ryddhad, cosbau ac ymddygiadau cydymffurfio, gan gynnwys achosion sy'n cynnwys busnesau teuluol ac elusennau.
- Setiau data StatsCymru: Gan gynnwys cyfraddau tlodi plant, deiliadaeth tai yn ôl math o aelwyd ac agosrwydd at safleoedd tirlenwi.
- Monitor Lles Plant a Phobl ifanc Llywodraeth Cymru: Mae'n darparu data ar dai, incwm, iechyd, addysg ac amodau amgylcheddol sy'n effeithio ar blant.

### 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Rhestrir y darpariaethau ar ffurf gryno yn Rhan 1 o'r Asesiad Effaith Integredig hwn. Ceir rhagor o wybodaeth am y diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r cynigion yn canolbwyntio ar faterion gweinyddol neu gyllidol ac maent yn debygol o gael effeithiau anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc yn hytrach na rhai uniongyrchol.

- Diogelu preifatrwydd (Erthygl 16) pan gaiff data personol eu rhannu neu eu harchwilio.
- Sicrhau bod cynigion yn parchu lles pennaf y plentyn (Erthygl 3) drwy osgoi mesurau sy'n creu neu'n gwaethygu ansefydlogrwydd mewn aelwydydd neu sy'n tarfu ar wasanaethau.
- Diogelu iechyd ac amgylchedd plant (Erthygl 6 ac Erthygl 24) mewn achosion sy'n cynnwys tirlenwi, gwastraff neu bwerau archwilio.
- Diogelu safon byw ddigonol (Erthygl 27) drwy osgoi mesurau sy'n rhoi baich anghymesur ar deuluoedd incwm isel neu elusennau sy'n gwasanaethu plant.

Mae prif effeithiau CCUHP sy'n codi mewn cynigion a ddewiswyd fel a ganlyn:

| **Erthyglau neu Brotocol Dewisol Confensiwn y Cenhedloedd ar Hawliau'r Plentyn** | **Yn gwella (X)** | **Yn herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn)<br><br>Erthygl 4 (gweithredu'r confensiwn)<br><br>Erthygl 16 (yr hawl i breifatrwydd) | X | X | **Darpariaethau rhannu gwybodaeth**<br><br>Mae'r Papur Gwyn yn cynnig sawl newid i'r ffordd y mae gwybodaeth sy'n dod i law ACC, neu sefydliad y dirprwywyd swyddogaethau ACC iddo, yn cael ei defnyddio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Nod y cynigion yn y Papur Gwyn yw gwella prosesau rhannu data â chyrff cyhoeddus, sef prif gynghorau a Llywodraeth Cymru; er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu swyddogaethau eu hunain. Drwy hyn gellir darparu'n well wasanaethau a allai ddod â manteision anuniongyrchol i blant a phobl ifanc (Erthygl 3 ac Erthygl 4).<br><br>Drwy'r diwygiadau, mae risg fach y caiff gwybodaeth am drethdalwyr sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd ei datgelu'n amhriodol, os bydd gwybodaeth yn hygyrch y tu hwnt i bersonau awdurdodedig (Erthygl 16). Fodd bynnag, bydd mesurau lliniaru, gan gynnwys y protocolau presennol ynglŷn â datgelu gwybodaeth trethdalwyr adnabyddadwy. Ochr yn ochr â datblygu deddfwriaeth, byddwn yn ystyried a oes angen mesurau diogelwch ychwanegol, h.y. Asesiad cyhoeddedig o'r Effaith ar Ddiogelu Data. |
| Erthygl 4 (gweithredu'r confensiwn) | X | | **Cymhwyso Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) at y Goron**<br><br>Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion sy'n egluro hawliau apelio mewn perthynas â buddiannau'r Goron. Unwaith eto, mae hyn yn helpu i sicrhau bod refeniw trethi datganoledig yn cael ei gasglu'n effeithlon ac yn rhoi sicrwydd cyfreithiol i drethdalwyr yng Nghymru.<br><br>Nid ydym wedi nodi unrhyw her realistig i hawliau plant a phobl ifanc. Mae effaith y cynnig yn un dechnegol a niwtral. |
| Erthygl 2 (dim gwahaniaethu) | X | | **Enwebeion a Iesoedd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 4 (gweithredu'r confensiwn)<br><br>Erthygl 27 (safon byw dda) | | | Mae'r Papur Gwyn yn cynnig diwygiadau i Ddeddf Treth Trafodiadau a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 er mwyn mynd i'r afael ag anghysondebau o ran y ffordd y caiff lesoedd sy'n cynnwys enwebeion ac ymddiriedolwyr noeth eu trin at ddibenion treth. Nod y cynigion yw sicrhau tegwch drwy sicrhau y gall trafodiadau dilys gael budd o ryddhadau.<br><br>Er mai diwygiad technegol a masnachol ydyw yn bennaf, rydym wedi nodi effeithiau anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Gall adfer rhyddhadau ar gyfer trafodiadau lesio dilys gefnogi darparwyr tai a fforddiadwyedd, gan ddod â manteision i deuluoedd â phlant (Erthygl 27). |
| Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn)<br><br>Erthygl 27 (safon byw dda) | X | | **Adlewyrchu diwygiadau i'r system lesddaliadau yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017**<br><br>Mae'r Papur Gwyn yn cynnig diwygiadau i Ddeddf Treth Trafodiadau a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, gan egluro nad yw cyfraddau preswyl uwch yn gymwys i drafodiad.<br><br>Gallai dileu cosbau treth anfwriadol gefnogi diogelwch a fforddiadwyedd tai i deuluoedd yn anuniongyrchol, gan hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc yn y pen draw. Mae'r cynnig hwn yn debygol o gael effaith gadarnhaol anuniongyrchol gymedrol ar blant a phobl ifanc drwy wella mynediad at dai diogel a fforddiadwy drwy freinio ar y cyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn)<br><br>Erthygl 27 (safon byw dda) | X | | **Trafodiad A i A+B**<br><br>Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid diwygio Deddf Treth Trafodiadau a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 er mwyn egluro, mewn trafodiad "A i A+B", na ddylid trin y perchennog gwreiddiol (A) fel prynwr.<br><br>Gallai egluro nad prynwr yw A mewn trafodiad A i A+B leihau'r baich treth ar deuluoedd gan ffurfioli cydberchenogaeth a fydd, yn ei dro, yn helpu i sicrhau diogelwch tai i blant a phobl ifanc. |
| Erthygl 2 (dim gwahaniaethu)<br><br>Erthygl 4 (gweithredu'r confensiwn) | X | | **Rhyddhad grŵp a chydnabyddiaeth o'r tu allan i'r grŵp:**<br><br>Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid diwygio Dreth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 er mwyn egluro pryd y dylai rhyddhad grŵp barhau i fod ar gael, hyd yn oed os darperir cydnabyddiaeth am drosglwyddo eiddo o'r tu allan i'r grŵp corfforaethol.<br><br>Mae'r cynnig hwn yn annhebygol o gael effeithiau uniongyrchol ar blant na phobl ifanc ond gallai ddod â manteision anuniongyrchol cymedrol drwy ddiogelu sefydlogrwydd ariannol sefydliadau sy'n gwasanaethu plant a phobl ifanc (pan fyddant yn rhan o strwythurau grŵp mwy o faint) a sicrhau tegwch o ran triniaeth dreth. |
| Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn)<br><br>Erthygl 16 (preifatrwydd)<br><br>Erthygl 24 (iechyd/amgylchedd) | X | | **Pwerau archwilio**<br><br>Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid diwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) i ganiatáu i Awdurdod Cyllid Cymru gynnal ymweliadau dirybudd â safleoedd busnes at ddibenion y Dreth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gwarediadau Tirlenwi heb gael cymeradwyaeth tribiwnlys ymlaen llaw.<br><br>Er nad yw'r cynnig hwn yn targedu plant na theuluoedd yn uniongyrchol, gallai gael effeithiau anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc drwy ei effeithiau ar ddiogelu'r amgylchedd a refeniw cyhoeddus. Gallai archwiliadau cyflymach helpu i ganfod ac atal gweithgarwch tirlenwi anghyfreithlon neu anniogel, gan leihau risgiau llygredd a all niweidio iechyd plant, yn enwedig mewn cymunedau ger safleoedd tirlenwi. |
| Erthygl 4 (adnoddau)<br><br>Erthygl 2 (dim gwahaniaethu) | X | | **Hysbysiadau gwybodaeth i gadarnhau a yw rhyddhad wedi'i dynnu'n ôl**<br><br>Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid diwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 i ganiatáu i Awdurdod Cyllid Cymru gyflwyno hysbysiadau gwybodaeth at ddibenion cadarnhau a yw'r amodau ar gyfer tynnu rhyddhad yn ôl wedi'u bodloni.<br><br>Mae'r cynnig hwn yn ddiwygiad gweinyddol wedi'i dargedu. Er na fydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc yn uniongyrchol, mae cryfhau gallu ACC i ddilysu cymhwystra i gael rhyddhad yn hyrwyddo tegwch a thryloywder. |
| Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn)<br><br>Erthygl 27 (safon byw dda) | X | | **Hawliadau am ryddhad gordaliad**<br><br>Mae'r cynnig hwn yn egluro nad oes angen i Awdurdod Cyllid Cymru agor ymholiad ffurfiol er mwyn gwrthod hawliad am ryddhad gordaliad o dan adran 63 pan oedd ACC wedi dibynnu ar adran 67 i wrthod yr hawliad.<br><br>Drwy brosesu hawliadau am ryddhad gordaliad a wrthodwyd yn gyflymach |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gallai hynny leihau ansicrwydd dros gyfnod estynedig i aelwydydd sy'n dibynnu o bosibl ar ad-daliadau i dalu costau hanfodol sy'n cefnogi plant. |

## 4. Cyfathrebu â Phlant a Phobl ifanc

Byddwn yn parhau i ystyried sut i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## 5. Monitro ac Adolygu

Byddwn yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynir mewn ymateb i'r Papur Gwyn ac unrhyw risgiau neu faterion a nodir. Bydd hyn yn llywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol ar ôl y cyfnod ymgynghori.